Y Pwyllgor Cyllid
Finance Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jane Hutt
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

24 Mawrth 2015

Annwyl Jane

**Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru**

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod y Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymchwiliad byr i gasglu trethi datganoledig.

Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus i fod mor wybodus â phosibl cyn cyflwyno'r Bil disgwyliedig ar gyfer rheoli a chasglu trethi. Credwn y bydd y darn hwn o waith yn rhoi tystiolaeth i ni o ba sefydliadau yw'r rhai mwyaf effeithlon o ran casglu trethi datganoledig yn y tymor byr a'r tymor hwy. Mae cylch gorchwyl yr ymgynghoriad yr ydym yn ei gynnal ar hyn o bryd ar gael ar dudalennau gwe y Pwyllgor.

Nid yw'n fwriad gan yr Aelodau eich gwahodd i roi tystiolaeth lafar i'r ymchwiliad hwn, ond os oes gennych unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a fyddai'n ddefnyddiol i Aelodau yn eich barn chi byddem yn ddiolchgar i'w derbyn.

Yn gywir



**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8120
Ebost/Email: pwyllgorcyllid@cynulliad.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**